YSGOL WIRFODDOL A GYNORTHWYIR YR EGLWYS YNG NGHYMRU Y SANTES FAIR, RHIWABON
POLISI DERBYN 2010-2011

Dyddiadau ymgynghori

1af Medi 2009 hyd 15 Ebrill 2010 – ar gyfer y flwyddyn academaidd-2011/2012

Mae Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru y Santes Fair yn derbyn disgyblion rhwng 3 ac 11 oed.

Fel Ysgol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru, mae Corff Llywodraethu'r Ysgol yn gyfrifol am bolisi derbyn disgyblion. Ceir ffurflenni derbyn gan yr Ysgol. Dilynir amserlen derbyn yr Awdurdod Lleol ar gyfer dosbarthu'r ffurflenni, y cyfnod ystyried ac yna dychwelyd y ffurflenni.

Mae Deddf Diwygio Addysg 1988 yn ei gwneud hi'n ofynnol i Awdurdodau Lleol a Chyrff Llywodraethu dderbyn disgyblion hyd at y rhif derbyn oni bai y byddai gwneud hynny'n anghyson â chadw natur arbennig yr Ysgol.

Bydd yr ysgol yn ystyried ceisiadau hwyr mewn achosion ble rhoddir rheswm dilys dros hynny. Mae'r rhain yn cynnwys achosion pan fydd rhiant sengl wedi bod yn sâl am gyfnod hir o amser, neu pan fydd teulu newydd symud i'r ardal, neu yn dychwelyd o dramor cyn belled â bod ceisiadau wedi eu derbyn cyn i lefydd gael eu cynnig.

Bydd y rheini'n derbyn hysbysiad ysgrifenedig am bob cais mynediad.

Caiff disgyblion eu derbyn i'r Meithrin, sy'n rhan o'n dosbarth Blynyddoedd Cynnar yn y flwyddyn academaidd pan fyddant yn bedair – h.y. bydd modd derbyn unrhyw blentyn sy'n dair erbyn y 31^{ain} Awst ym mis Medi. Mae'r Meithrin yn ddarpariaeth statudol; ond, nid yw'n addysg orfodol. **Nid yw** derbyn plentyn i'r Meithrin yn sicrhau lle yn y dosbarth Derbyn; os oes gan blentyn le yn ein dosbarth meithrin, mae'n rhaid cyflwyno'r ffurflen briodol i gael lle yn y dosbarth Derbyn o fewn yr amserlen a nodir yn y cylch derbyn blynyddol.

Caiff disgyblion eu derbyn i'r Meithrin yn y flwyddyn academaidd pan fyddant yn bump – h.y. gall unrhyw blentyn sy'n cyrraedd pedair oed erbyn y 31ain Awst gael ei dderbyn ym mis Medi.

Mae "plant a warchodir" yn cael blaenoriaeth. Mewn achos o ordanysgrifio, bydd y Llywodraethwyr yn derbyn y disgyblion sy'n gweddu orau i'r gofynion cyfreithiol ac i'r ddeddfwriaeth bresennol.

Caiff plant o gymuned deithiol y Sipsiwn neu grwpiau teithiol eu trin yn unol â Chylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru Rhif: 003/2008 'Symud Ymlaen – Addysg Siwpsiwn Teithiol'.

Ni fydd yr ysgol yn gwahaniaethu rhwng bechgyn a merched, nac yn erbyn ymgeiswyr ar sail hil, lliw, cenedl neu darddiad ethnig neu genedlaethol.

Meini Prawf Derbyn

Mae'r Llywodraethwyr wedi cytuno pe bai'r ysgol yn gordanysgrifio, y defnyddir y meini prawf canlynol yn y drefn y'u nodir isod, i benderfynu pa ddisgyblion i'w derbyn.

a) Plant a warchodir sy'n aelodau bedydd o'r Eglwys yng Nghymru
b) Plant a warchodir o Ffydd eraill
c) Disgyblion y mae eu cyfeiriad cartref o fewn ffiniau plwyf eglwysig Ysgol y Santes Fair.* (gan roi blaenoriaeth uwch i ddisgyblion sydd hefyd yn bodloni maen prawf (**d**) isod).
d) Disgyblion sydd â brawd neu chwaer fydd yn parhau i fod yn yr ysgol yn y flwyddyn academaidd ganlynol h.y. nid ym Mlwyddyn 6. (gweler y diffiniad isod o frawd neu chwaer).
e) Disgyblion y mae gan eu rhieni gysylltiad ag Ysgol y Santes Fair, Rhiwabon. (gweler y diffiniad o rieni isod).
f) Disgyblion y mae gan eu rhieni gysylltiad ag Eglwys Anglicanaidd arall ac mai hon yw'r Ysgol a Gynorthwyir agosaf atynt.
g) Disgyblion y mae eu rhieni'n aelodau gweithgar o enwad Cristnogol an-Anglicanaidd ac mai hon yw'r Ysgol Eglwys agosaf atynt hwy.
h) Disgyblion y mae eu rhieni'n aelodau gweithgar o ffydd arall ac sydd hefyd yn mynegi awydd i gael addysg Ysgol Eglwys.
i) Disgyblion eraill.

Fe allai amgylchiadau meddygol eithriadol (ynghyd â thystiolaeth feddygol) orbwyso'r uchod.

Noder, bydd unrhyw blentyn y mae enw'r ysgol wedi ei nodi ar ei gyfer mewn datganiad addysg arbennig, yn cael ei dderbyn cyn gweithredu'r meini prawf gordanysgrifio.

Ar gyfer meini prawf **e - h**, bydd y Llywodraethwyr yn ceisio gwybodaeth ynglŷn ag amlder presenoldeb mewn gwasanaethau ac i ba raddau yr ydych yn ymwneud â gwaith yr eglwys ac yn ceisio cadarnhad o'r manylion hyn gan y rheithor neu'r gweinidog.

O fewn pob categori, caiff y rhai sy'n byw agosaf at yr ysgol y flaenoriaeth uchaf. Caiff y pellter eu cyfrifo gan Awdurdod Lleol Wrecsam gan ddefnyddio System Wybodaeth Ddaearyddol sy'n mesur yn fanwl gywir y pellter mewn llinell syth o'r cyfeiriad cartref i'r ysgol. Os yw'r pellterau yn gyfartal, fel y'u cyfrifir gan System Wybodaeth Ddaearyddol y Cyngor, er enghraifft fflat mewn bloc o aneddiadau gyda'r un fynedfa flaen, defnyddir gwahaniaethu yn ôl lefel y llawr.

Diffiniadau

Diffiniad o Rieni

Mae rhieni'n cynnwys yr holl bobl sydd â chyfrifoldeb rhiant dros blentyn fel y nodir yn Neddf Plant 1989. Pan fydd cyfrifoldeb dros blentyn yn cael ei 'rannu', pennir mai'r sawl sy'n derbyn y Budd-dal Plant yw'r un sydd â chyfrifoldeb dros gwblhau ffurflenni cais ac y defnyddir ei gyfeiriad at ddibenion derbyn.

Diffiniad o Frawd neu Chwaer

Ar gyfer ceisiadau a wneir yn y rownd dderbyn arferol, mae brawd neu chwaer perthnasol yn blentyn sydd â brawd, chwaer, hanner brawd neu hanner chwaer neu sy'n blentyn maeth sy'n byw yn yr un uned deuluol, yn yr un cartref a chyfeiriad teuluol ac sy'n mynychu'r ysgol ddewisol mewn unrhyw grŵp blwyddyn ac eithrio'r flwyddyn olaf. Bydd brodyr a chwiorydd biolegol sy'n mynychu'r ysgol ddewisol mewn unrhyw grŵp blwyddyn ac eithrio'r flwyddyn olaf hefyd yn cael eu trin fel brodyr a chwiorydd, waeth lle maent yn preswylio.

Ni fydd plant sy'n byw yn yr un teulu fel rhan o deulu estynedig, megis cefndryd a chyfnitherod, yn cael eu trin fel brodyr a chwiorydd.

'Preswylio Yn' a 'Chyfeiriad Cartref'

Y Cyfeiriad Cartref fydd yr un a ddefnyddir ar gyfer gohebiaeth yn ymwneud a'r fan ble y telir "Budd-dal Plant". Mewn achosion ble mae amheuaeth ynglŷn â'r cyfeiriad cartref neu pan fo plentyn yn byw rhwng dau gartref (teuluoedd wedi gwahanu) neu amgylchiadau eraill perthnasol, mae'n rhaid darparu prawf o'r Cyfeiriad Cartref i'r ysgol i gadarnhau'r cyfeiriad a ddefnyddiwyd ar y ffurflen gais. Bydd y Cyfeiriad Cartref yn cydymffurfio gyda'r uchod ar ddyddiad cau derbyn ceisiadau a osodwyd gan yr Awdurdod Lleol. Dylai teuluoedd sydd ar fin symud tŷ ddarparu

i) llythyr gan gyfreithiwr yn cadarnhau fod Cytundebau wedi eu cyfnewid ynglŷn â phrynu eiddo; neu
ii) copi o'r Cytundeb Rhent presennol, wedi ei arwyddo gan y ddau Denant a'r Landlord, yn dangos cyfeiriad yr eiddo; neu
iii) yn achos personél sy'n gwasanaethu E.M., llythyr swyddogol yn cadarnhau dyddiad eu symud o'r MOD, FCO neu'r GCHQ.

Efeilliaid, Tripledi, Genedigaethau Niferus

Pan fydd y Corff Llywodraethu'n ystyried gefeilliaid, tripledi neu enedigaethau niferus eraill ar gyfer un lle sy'n weddill, caiff y teulu gynnig y lle ac efallai y byddant yn penderfynu (a) y byddant yn ei dderbyn ar gyfer un plentyn neu (b) eu bod yn gwrthod y lle ac fe gaiff ei gynnig i'r person nesaf yn y dyraniad yn dilyn yr efeilliaid/ tripledi/ genedigaethau niferus. Noder na fyddai brodyr a chwiorydd i enedigaethau niferus yn cael blaenoriaeth ar gael eu derbyn ar wahân i gael eu hystyried fel cyswllt brawd neu chwaer unwaith y bydd y teulu wedi derbyn y lle(fydd) a gynigir i un o'r efeilliaid/ tripledi/ genedigaethau niferus.

Cedwir rhestr aros pe bai'r flwyddyn ysgol wedi ei gordanysgrifio. Yn dilyn dyrannu llefydd yn ystod y rownd dderbyn arferol, bydd plant yn parhau ar y rhestr aros hyd y 31 Awst yn ystod y flwyddyn ysgol y maen nhw'n gwneud cais amdani. Os bydd llefydd ychwanegol yn dod ar gael tra mae'r rhestr aros yn cael ei gweithredu, byddant yn cael eu dyrannu i blant sydd ar y rhestr aros ar sail y meini prawf gordanysgrifio uchod.

Os ydych yn gwneud cais o dan feini prawf e-h uchod, gellir cael **Ffurflen Gwybodaeth Ychwanegol** yn uniongyrchol gan yr ysgol. Dylid dychwelyd y Ffurflen hon i'r ysgol erbyn y dyddiad a nodir gan yr ysgol bob blwyddyn. Nid

yw'r Ffurflen hon ar ei phen ei hun yn gyfystyr â ffurflen gais; mae'n rhaid i rieni lenwi Ffurflen Gais Gyffredinol hefyd.

Apeliadau derbyn

Mae'r addysg feithrin yn ddarpariaeth statudol ond nid oes gan rieni unrhyw hawl i apelio o dan Ddeddf Addysg 1980 os nad ydynt yn llwyddo i gael lle. Nid yw derbyn i'r dosbarth meithrin yn sicrhau lle yn yr ysgol wedyn.

Os na fyddwn yn cynnig lle i blentyn yn yr ysgol hon, mae hynny oherwydd y byddai cynnydd yn y niferoedd yn cael effaith niweidiol ar addysg ein disgyblion presennol. Gall rhieni sy'n anfodlon gyda phenderfyniad y Corff Llywodraethu i beidio â derbyn plentyn, apelio. Os ydych yn gweithredu'r hawl hwnnw, mae'n rhaid anfon yr apêl ymlaen at Glerc Llywodraethwyr yr ysgol.

Caiff yr apêl ei hystyried gan Banel Apêl derbyn annibynnol, wedi ei weinyddu gan Fwrdd Addysg yr Esgobaeth yn unol â chod ymddygiad Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Apeliadau Derbyn ysgolion. Mae'r Panel Apêl yn cyfarfod wedyn i ystyried pob apêl gan rieni y gwrthodwyd lle i'w plentyn yn ein hysgol. Mae'r penderfyniad hwn yn sefyll i bob un a effeithir.

Mae'r polisi hwn wedi ei ysgrifennu i gydymffurfio a'r ddogfennaeth ganlynol:

- Dogfen Cod Statudol Derbyn ysgolion Rhif: 002/2009 Gorffennaf 2009
- Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 a 2005.
- Deddf Gwahaniaethu Rhywiol 1975.
- Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976
- Deddf Cydraddoldeb 2006
- Y Ddeddf Diwygio Addysg 1988
- Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1988 – yr hawl i rieni ddewis (s86(1)) a'r hawl i apelio.
- Rheoliadau Addysg (Penderfynu ar Drefniadau Addysg) (Cymru) 2006.
- Deddf Addysg 2005 – blaenoriaeth i Blant a Warchodir.
- Deddf Addysg ac Arolygon 2006 (adran 44) – gwahardd cyfweld rhieni a phlant.
- Deddf Addysg 2002 – diddymu'r hawl i gyfyngu ar fynediad yn seiliedig ar gyfran o blant o'r tu allan i'r grŵp ffydd.
- Cyhoeddir canllawiau anstatudol hefyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac Esgobaeth Llanelwy.

Adolygu

Yn unol â Chynllun Datblygu'r Ysgol, caiff y polisi hwn ei adolygu bob dwy flynedd neu cyn hynny pe digwydd unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth neu newid i amgylchiadau lleol.

FFURFLEN GWYBODAETH YCHWANEGOL

I geisio am le yn Ysgol Gynradd a Gynorthwyir Wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru y Santes Fair, Rhiwabon.

Dylai rhieni gwblhau'r ffurflen hon ddim **mwy na 3 mis cyn dyddiad cau derbyn ceisiadau** ac yna ei rhoi i'ch gweinidog, gydag **amlen â stamp a chyfeiriad** arni i'r ysgol. Dylai'r **Gweinidog** ei dychwelyd yn **uniongyrchol** i'r ysgol. Dim ond yr ymgeiswyr hynny sy'n gwneud cais o dan feini prawf yr eglwys fydd angen ei chwblhau.

Enw a chyfeiriad y plentyn:	
Dyddiad Geni:	

Rhowch fanylion y prif fan addoli a fynychwyd yn ystod y tair blynedd diwethaf. (Os ydych yn dymuno ardystiad gan fwy nag un gweinidog, a fyddech cystal â rhoi manylion ar ddarn ar wahân o bapur).

Enw'r Eglwys: Enwad yr Eglwys:	
Enw a chyfeiriad llawn (yn cynnwys cod post)	

y Gweinidog:	
Rhif ffôn y Gweinidog:	
Pa aelodau o'r teulu sy'n mynychu'r addoliad:	Mam Tad Plentyn/Plant
Os nad yw eich plentyn yn mynd yng nghwmni rhiant ydyn nhw'n mynd gydag oedolion eraill? Os ydynt manyler os gwelwch yn dda	Ydy Nac ydy
Am ba gyfnod ydych chi wedi mynychu'n rheoliad?	Llai na 6 mis 6 mis i flwyddyn 1 flwyddyn i 18 mis Mwy na 2 flynedd Mwy na 3 blynedd
Pa mor aml ydych chi wedi mynychu fel arfer yn ystod y cyfnod hwn?	Unwaith yr wythnos Unwaith bob pythefnos Bob mis/gwasanaeth teuluol
Ydy'r plentyn sy'n destun y cais hwn yn mynychu Eglwys Sul neu lau neu debyg	Ydy Nac ydy
Rhestrwch bob agwedd ar eich ymwneud (ar wahân i'r addoliad ar y Sul) gyda bywyd a gwaith eich eglwys.	

Llofnod rhiant:	Dyddiad

I'r Gweinidog: A fyddech cystal â chadarnhau'r manylion uchod. Ychwanegwch unrhyw sylwadau y credwch y byddent yn ddefnyddiol i'r ysgol ddeall ymrwymiad Cristnogol y teulu hwn, yna trosglwyddwch y ffurflen yn uniongyrchol i'r ysgol yn yr amlen a ddarparodd y rhieni. Diolch.

Llofnod y gweinidog: Dyddiad